# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-18-08)

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2008
Amser : 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

### SLC175 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 27 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar: at ddiben rheoliad 30(a) - 30 Mehefin 2008; at bob diben arall - 1 Gorffennaf 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) 2008, (O.S. 2008/1237 (Cy.124)), ac yn ailddeddfu'r Rheoliadau hynny gyda newidiadau penodol. Y prif newid yw darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi yng Nghymru Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 597/2008 sy'n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 372/2007 "sy'n gosod terfynau ymfudiad trosiannol ar gyfer plastigyddion mewn gasgedi mewn caeadau y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwydydd", (y Rheoliad Comisiwn newydd"). Mae'r Rheoliad Comisiwn newydd yn estyn y dyddiad terfyn perthnasol ar gyfer y cyfryw ddeunyddiau ac eitemau i 30 Ebrill 2009. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi'r Rheoliad Comiswn newydd.

### SLC176 - Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 1 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 sy'n nodi'r math o wybodaeth sy'n ofynnol i'w darparu i rieni a darpar rieni gan awdurdodau lleol dan eu dyletswyddau yn adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006. Yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2008 nododd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth gamgymeriadau drafftio a ddywedodd y Llywodraeth fyddai'n cael eu cywiro. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol i'r prif Reoliadau.

### SLC178 - Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 3 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym - yn unol â rheoliad 1(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer datgymhwyso gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a bennir ar gyfer y cyfnod allweddol cyntaf yn adran 105(1), (2), (3) a Gorchmynion a wneir o dan adran 108(3) o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir am y blynyddoedd ysgol 2010 i 2011 a 2011 i 2012.

### SLC179 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 3 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 1 Awst 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i ddarparu bod hyd at bedair sesiwn ym mhob un o flynyddoedd ysgol 2008/9 a 2009/10 yn cyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os cawsant eu neilltuo i ddarparu hyfforddiant, neu baratoi a chynllunio, ar gyfer y canlynol—

cyflwyno'r cyfnod sylfaen,
paratoi a gweithredu cynlluniau a anelir at hwyluso disgyblion i bontio o'r cyfnod sylfaen ac o un cyfnod allweddol i gyfnod allweddol arall, a rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys, yn yr ail achos, y cynlluniau statudol y mae angen eu llunio o dan adran 198 o Ddeddf Addysg 2002),
newidiadau sydd i ddod yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, a
cynlluniau Gweinidogion Cymru ar gyfer ymestyn opsiynau dysgu ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed.

### SLC180 - Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Gorffennaf 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym ar 1 Awst 2008.

Mae Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") yn rhoi effaith gyfreithiol i'r rhaglenni astudio sy'n gosod yr hyn y dylid ei ddysgu i blant a thargedau cyrhaeddiad ar eu cyfer mewn perthynas â disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 i 4. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2008 er mwyn gwneud cywiriadau i'r testun Cymraeg yn dilyn adroddiad y Pwyllgor ar Orchymyn 2008 (SLC166). Cafodd gwall arall a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ei gywiro wrth gyhoeddi Gorchymyn 2008.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

### SLC177 - Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Gorffennaf 2008.. Fe'u gosodwyd ar 3 Gorffennaf 2008. Yn dod i rym - yn unol ag erthygl 1(2).

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cyflwyno'r cyfnod sylfaen ar gyfer disgyblion yng Nghymru fesul cam. Cyflwynir y cyfnod sylfaen ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008, ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2009, ar gyfer trydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2010 ac ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2011. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn pennu cyfnod y cyfnod sylfaen ac yn rhoi effaith gyfreithiol i'r meysydd dysgu, sy'n gosod y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol.

### Eitem 4: Monitro canlyniad adroddiadau'r Pwyllgor ar is-ddeddfwriaeth o dan Reolau Sefydlog 15.2 - 15.6

### Eitem 5: Unrhyw fater arall

### Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf